**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/00273/20

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Awst 2020

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf yn dilyn y sesiwn graffu estynedig gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Roedd hon yn sesiwn ar fy mhortffolio cyfan a or-redodd, fel y gwyddoch, ac roedd nifer sylweddol o feysydd i'w trafod. Nid wyf erioed wedi ceisio osgoi craffu ar y rhaglen warchod a byddwn wedi bod yn fodlon iawn i drafod y cyhoeddiad gan Brif Swyddog Meddygol Cymru y diwrnod hwnnw pe bai gwarchod wedi bod ymhlith y pynciau trafod. Wrth gwrs, roedd Prif Swyddog Meddygol Cymru eisoes wedi ymestyn cyfnod amser y rhaglen warchod cyn i'r pwyllgor gwrdd ar 16 Gorffennaf, ac roedd gwledydd eraill y DU eisoes wedi cyhoeddi'n gyhoeddus y byddent yn oedi trefniadau gwarchod. Er enghraifft, cyhoeddodd Lloegr ar 22 Mehefin y byddai eu trefniadau gwarchod yn dod i ben am y tro. Mater i'r pwyllgor, wrth gwrs, yw blaenoriaethu'r meysydd holi fel sy'n addas.

I gydnabod y nifer o'n dinasyddion y mae'r cyngor i warchod eu hunain wedi effeithio arnynt, a rôl allweddol y trydydd sector wrth gefnogi'r unigolion hynny, mae fy swyddogion wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r sesiynau hyn yn nodi cyfeiriad gwarchod yn y dyfodol, yn esbonio sut a pham y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd yn cymryd unrhyw gwestiynau a sylwadau sydd gan sefydliadau am warchod neu'r mecanweithiau cymorth sy'n galluogi pobl i warchod. Mae'r grwpiau a gymerodd ran yn y sesiynau hyn wedi cynnwys y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Consortiwm y Trydydd Sector ar Anableddau Dysgu a Chynghrair Canser Cymru. Mae'r Prif Swyddog Meddygol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol hefyd wedi mynychu'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl deirgwaith i drafod gwarchod.

O gofio rôl hanfodol ein Hawdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) i gefnogi'r rhaglen warchod cynhaliwyd sesiwn friffio cyn y cyhoeddiad i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cael eu paratoi a'u bod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am y newid yn y cyngor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth baratoi ar gyfer y cyhoeddiad darparwyd adnoddau i sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys dogfen cwestiynau cyffredin, gyda dolenni i'r holl wybodaeth berthnasol am warchod. Helpodd hyn sefydliadau i baratoi ar gyfer cwestiynau yr oeddent yn debygol o'u cael ar ôl y cyhoeddiad a darparu cefnogaeth briodol.

Mae mwy y gallwn ei wneud bob amser a byddwn yn parhau i ymateb i'r adborth a gawn sy'n ein helpu i drefnu ein cefnogaeth ar gyfer garfan hon.

Rwyf yn gobeithio bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch ein dull gweithredu yn y maes pwysig hwn.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services